ADOLYGIAD O GYFRES ARHOLIADA U GAEAF 2018-19

EBRILL 2019

Cynnwys

Cyflwyniad 3
Paratoi ar gyfer y gyfres 4
Darparu'r Gyfres 8
Pennu safonau, dyfarnu a chanlyniadau 12
Casgliad 15

Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw'r corff annibynnol sy'n rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Un o'n prif weithgareddau yw craffu ar y gwaith o ddyfarnu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

Dyfernir y mwyafrif helaeth o gymwysterau yn dilyn cyfres arholiadau'r haf. O'u cymharu, mae cyfres y gaeaf, sy'n cynnwys arholiadau mis Tachwedd a mis Ionawr, yn llawer llai, a dyfernir nifer gymharol fach o bynciau. Ym mis Tachwedd 2018, dyfarnwyd cymwysterau Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith. Ym mis Hydref 2017 gwnaethom godi'r cyfyngiad ailsefyll yn unig ar gofrestriadau mis Tachwedd ar gyfer Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith. Daeth hyn o'n gwaith ymchwil Arferion Cofrestru Cynnar a Lluosog[1] a'r bwriad oedd galluogi arferion cofrestru mwy hyblyg i ddysgwyr, lle y bo'n briodol. Mis Tachwedd 2018 oedd y tro cyntaf y codwyd y rheol ailsefyll yn unig ar gyfer cymwysterau Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith yn un o gyfresi mis Tachwedd.

Dyfarnwyd unedau ar gyfer cymwysterau TGAU mewn Llenyddiaeth Gymraeg a Llenyddiaeth Saesneg ym mis Ionawr 2019. Gellid hefyd gyflwyno elfennau unigol Tystysgrif Her Sgiliau Cyfnod Allweddol 4 Cenedlaethol/Sylfaenol ac Uwch Bagloriaeth Cymru at ddibenion cymedroli a dyfarnu. Arholwyd rhai unedau o fewn y pynciau TGAU nas diwygiwyd (megis Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TGCh) hefyd. Dyma hefyd oedd y cyfle olaf i ailsefyll cymwysterau TGAU etifeddol yn y pynciau diwygiedig hynny a gaiff eu dyfarnu am y tro cyntaf yn ystod haf 2020[2]. Roedd hefyd nifer fach o achosion o ailsefyll cymwysterau TGAU etifeddol nad ydynt wedi'u diwygio (megis Daeareg a Chymdeithaseg).

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gyfres arholiadau gaeaf 2018/19. Mae hefyd yn pennu ein dull o oruchwylio'r asesiadau a chraffu ar y prosesau pennu safonau a dyfarnu ar gyfer cymwysterau cyffredinol a gafodd eu sefyll gan ddysgwyr yng Nghymru.

[1] https://www.qualificationswales.org/media/2826/arferion-cofrestru-cynnar-a-lluosog-ar-gyfer-arholiadau-tgau-yng-nghymru-2017.pdf

[2] Cyfrifiadureg. Dylunio a Thechnoleg, Hanes, Astudiaethau'r Cyfryngau, Astudiaethau Crefyddol, Cymraeg Ail Iaith.

Paratoi ar gyfer y gyfres

Cydweithio

CBAC yw'r unig fwrdd arholi sy'n cynnig y rhan fwyaf o'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gaiff eu sefyll yng Nghymru, yn ogystal â Bagloriaeth Cymru. Felly, mae ein gweithgareddau monitro yn canolbwyntio ar y cymwysterau a gynigir ganddo. Gwnaethom weithio'n agos gyda CBAC er mwyn paratoi ar gyfer arholiadau'r gaeaf a chraffu ar gyfnodau dyfarnu.

Er mwyn paratoi ar gyfer cyfres y gaeaf, gwnaethom weithio gyda CBAC er mwyn deall y risgiau a'r problemau y gall eu hwynebu wrth ddarparu'r cymwysterau.

Cofrestriadau

Cyhoeddwyd datganiad ystadegol gennym yn nodi'r ffigurau cofrestru ar gyfer arholiadau yn ystod cyfres arholiadau mis Tachwedd[3]. Mae'r datganiad yn nodi nifer y cofrestriadau dros dro a gyflwynwyd i'r byrddau arholi. Mae'r ffigurau hyn yn ddangosydd defnyddiol o'r ffordd y mae'r cofrestriadau yn cymharu â chyfresi blaenorol, a gwnaethant ein helpu i gynllunio ein dull o oruchwylio'r dyfarniadau.

Yn gyffredinol, cafwyd 22,450 o gofrestriadau TGAU yng Nghymru ym mis Tachwedd 2018 - sef gostyngiad o 59.1% o gymharu â chyfres arholiadau mis Tachwedd 2017. Roedd 84.1% o'r cofrestriadau hyn ar gyfer y ddau gymhwyster Mathemateg.

Mae'n bosib bod y cynnydd sylweddol yn y cofrestriadau wedi'i ddylanwadu gan newidiadau LIC i fesurau perfformiad ysgolion, sy'n golygu mai dim ond y canlyniadau cyntaf fydd yn cyfrif o haf 2018 ymlaen.

[3] Gellir gweld y cyhoeddiad ystadegau swyddogol a gynhyrchwyd gan Cymwysterau Cymru ar gofrestriadau i gyfres mis Tachwedd 2018 yn http://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cofrestriadau-dros-dro-tachwedd-2017/

Cofrestriadau mis Tachwedd ar gyfer Cymwysterau TGAU Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd diwygiedig

	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
TGAU Mathemateg						
2018	10	15	4,935	1,125	635	**6,720**
2017	*	230	20,350	1,495	590	**22,670**
2016	0	295	22,575	175	25	**23,070**
TGAU Mathemateg - Rhifedd						
2018	*	20	11,715	340	95	**12,170**
2017	*	220	18,880	495	130	**19,730**
2016	0	335	28,705	145	15	**29,205**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau yn ôl casgliad data Grŵp Blwyddyn , rhwng 2017 a 2018 Cymwysterau Cymru; cyn Ofqual 2017.

Gostyngodd cofrestriadau mis Tachwedd 2018 ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd 70.4% o gymharu â mis Tachwedd 2017, a gostyngodd cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg 70.4%.

Roedd y garfan Blwyddyn 11 genedlaethol yn cynnwys 31,970 o fyfyrwyr. Cofrestrodd tua 15.4% (4,935) o'r garfan Blwyddyn 11 genedlaethol ar gyfer TGAU Mathemateg ym mis Tachwedd 2018, o gymharu â thua 36.6% (11,715) yn cofrestru ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd[4][5][6]. Cofrestriadau Blwyddyn 12 neu'n uwch oedd 26.2% (1,760) o'r cofrestriadau ar gyfer Mathemateg a 3.6% (435) o'r cofrestriadau ar gyfer Mathemateg – Rhifedd. Mae'n debygol mai ymgeiswyr a oedd yn dychwelyd i ailsefyll yr arholiad oedd pob un o'r rhain, fwy neu lai.

Cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau TGAU Cymraeg Iaith a Saesneg Iaith oedd yr holl gofrestriadau eraill, fwy neu lai, ym mis Tachwedd 2018.

[4] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupils-by-localauthorityregion-yeargroup

[5] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Independent-Schools/Pupils/number-by-localauthorityregion-agegroup

[6] http://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cofrestriadau-dros-dro-tachwedd-2017/

Cofrestriadau mis Tachwedd ar gyfer TGAU Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith

TGAU Saesneg Iaith

	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2018	0	*	1,760	1,005	580	**3,345**
2017	*	0	10,480	1,185	205	**11,870**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau yn ôl casgliad data Gr ŵp Blwyddyn.

TGAU Cymraeg Iaith

	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2018	0	0	175	15	*	**195**
2017	0	0	485	20	0	**505**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu - Cofrestriadau yn ôl casgliad data Gr ŵp Blwyddyn.

Cafwyd cynnydd o tua 3,930 (21.8%) yng nghofrestriadau mis Ionawr 2019 yn yr uned a oedd ar gael ar gyfer y cymhwyster Saesneg Llenyddiaeth diwygiedig (21,990) o gymharu â mis Ionawr 2018, ac roedd cynnydd o 35 (1.0%) yng nghofrestriadau Llenyddiaeth Gymraeg (3,285). Roedd disgyblion 16 oed yn cyfrif am 34.5% o'r cofrestriadau ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg, i lawr o 63.8% y llynedd. Roedd bron pob un o'r cofrestriadau ar gyfer Llenyddiaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion 16 oed (95.9% o gymharu â 99.8% y llynedd).

Cofrestriadau mis Ionawr ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg (Unedol)

Pwnc	Ionawr 2017	Ionawr 2018	Ionawr 2019
TGAU Llenyddiaeth Saesneg – Uned 1	19,790	18,060	21,990
TGAU Llenyddiaeth Gymraeg – Uned 1	3,170	3,255	3,285

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd i Cymwysterau Cymru gan CBAC

Unedau eraill â chofrestriadau sylweddol oedd TGCh uned 1 (2,945), TGCh uned 3 (350), Cymraeg Ail Iaith uned 1 (145), Cymraeg Ail Iaith uned 4 (140) ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol uned 2 (790). Roedd pob cofrestriad uned arall yn llai na 30. Gwnaeth y data cofrestriadau dros dro a gasglwyd gan CBAC roi arwydd cynnar i ni o'r patrymau cofrestru ar gyfer y cymwysterau TGAU. Gwnaethom ddefnyddio'r data hyn er mwyn helpu i gynllunio ein dull o oruchwylio'r dyfarniadau a dehongli'r canlyniadau. Dyma'r ail dro y cynigiwyd cymwysterau TGAU Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith ym mis Tachwedd; gwnaeth 13.8% o'r myfyrwyr Blwyddyn 10 hynny a

safodd yr arholiadau hyn yn ystod yr haf eu hailsefyll ym mis Tachwedd 2018, i lawr o 43.7% ym mis Tachwedd 2017.

Cyfathrebu â rhanddeiliaid

Anfonwyd llythyr gennym i bob ysgol yng Nghymru ym mis Tachwedd 2018, yn nodi ein dull ar gyfer rheoleiddio'r dyfarniadau TGAU ar gyfer cyfres arholiadau'r gaeaf[7]. Cyflwynwyd gwybodaeth hefyd i'r wasg a'r cyfryngau er mwyn helpu i egluro'r canlyniadau.

[7] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/letter-to-centres-re-winter-series-201819/

Darparu'r Gyfres

Digwyddiadau sy'n ymwneud â chyfres y gaeaf yn 2018/19

Rhaid i fyrddau arholi roi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiad sy'n debygol o gael effaith andwyol ar fyfyrwyr neu sy'n bygwth uniondeb cymhwyster rheoleiddiedig, megis gwallau mewn deunyddiau asesu neu achos o dorri diogelwch papur arholiad. Gall digwyddiadau sy'n codi y tu allan i Gymru effeithio ar fyfyrwyr yng Nghymru sy'n sefyll arholiad ar gyfer yr un cymhwyster.

Pan gawn wybod am ddigwyddiad, byddwn yn cadarnhau bod y bwrdd arholi'n cymryd camau priodol i leihau'r effaith ar fyfyrwyr yng Nghymru ac atal y sefyllfa rhag digwydd eto. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chymwysterau Safon Uwch, UG a TGAU y cawsom wybod amdanynt ar gyfer cyfres gaeaf 2018/19. Rhoddodd byrddau arholi wybod i ni am bum digwyddiad, gostyngiad o un digwyddiad o gymharu â chyfres y gaeaf blaenorol.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â chyfres y gaeaf yn ôl bwrdd arholi:

Bwrdd arholi	Nifer y digwyddiadau cyfres gaeaf 2018/19
OCR	1
AQA	0
CBAC	4
Pearson	0
Cyfanswm	**5**

Rydym yn categoreiddio digwyddiadau fel a ganlyn:

- Gwallau mewn papurau cwestiynau – materion sy'n ymwneud ag unrhyw ddeunydd a ddefnyddir at ddibenion asesu, gan gynnwys y cynllun marcio.
- Torri diogelwch – unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu ddeunyddiau asesu.
- Camymddwyn – achos bwriadol neu ddi-hid o dorri'r rheoliadau, yng Nghymru, a allai danseilio uniondeb asesiad.
- Marcio – materion ynghylch y broses o farcio asesiadau a chyhoeddi canlyniadau.
- Gwallau mewn prosesau a systemau - materion sy'n ymwneud â phrosesau neu systemau a ddefnyddir gan y bwrdd arholi neu ganolfan arholi.
- Arall – digwyddiadau nad ydynt yn dod o dan unrhyw un o'r categorïau uchod.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r math o ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt gan fyrddau arholi sy'n ymwneud â chyfres y gaeaf:

Math o Ddigwyddiad	Nifer cyfres y gaeaf 2018/19
Gwallau mewn papurau cwestiynau	2
Torri diogelwch	2
Camymddwyn (honedig)	0
Marcio	1
Gwallau mewn prosesau a systemau	0
Arall	0
Cyfanswm	**5**

Gwallau mewn papurau cwestiynau

Mae'r asesiadau yn destun prosesau sicrhau ansawdd mewnol wrth iddynt gael eu llunio, sy'n cymryd 18 mis ar gyfartaledd. Fodd bynnag, gall gwallau godi weithiau mewn papurau cwestiynau, mewn cyfieithiadau i'r Gymraeg ac yn ystod y broses addasu.

Cawsom wybod am ddau wall mewn papurau cwestiynau yn ystod cyfres y gaeaf 2018/19. Yn y ddau achos, darganfu'r bwrdd arholi fân wallau ar ôl i'r asesiad gael ei sefyll a gwnaeth addasu'r cynlluniau marcio i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg.

Achosion o dorri diogelwch

Mae byrddau arholi, ysgolion a cholegau yn cadw papurau arholiad yn ddiogel tan ddiwrnod yr arholiad. Weithiau, bydd diogelwch yn cael ei dorri, a byddwn yn cael gwybod am hyn ynghyd â'r camau y bydd y bwrdd arholi yn eu cymryd i liniaru'r effaith. Gall y camau hyn gynnwys:

- monitro'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwerthuso i ba raddau y mae diogelwch wedi'i dorri;
- dadansoddi'n ystadegol y sgriptiau arholiadau a gwblhawyd mewn canolfannau yr effeithiwyd arnynt, er mwyn gweld a gafwyd unrhyw berfformiad anarferol;
- galw'r papur arholiad sydd i'w sefyll yn ôl a llunio un newydd.

Cawsom wybod am ddau achos o dorri diogelwch yn ystod cyfres y gaeaf 2018/19. Daeth un o ysgol lle dosbarthodd y staff y pecyn anghywir o bapurau arholiad i'r myfyrwyr. Nodwyd y camgymeriad yn gyflym, a chasglwyd y papurau cyn i'r ymgeiswyr eu hagor. Yn ôl dadansoddiad ystadegol y corff dyfarnu, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bod ymgeiswyr wedi wynebu mantais, nac achos ehangach o dorri diogelwch.

Yn yr ail ddigwyddiad, collwyd deunyddiau asesu wrth eu trosglwyddo. Mae byrddau arholi yn ymdrechu i wella diogelwch yn y maes hwn, a byddwn yn monitro effeithiolrwydd y newidiadau hyn yn agos.

Marcio

Mae byrddau arholi yn rhoi gwybod i ni os oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â hynt y gwaith marcio, ansawdd y marcio, neu gywirdeb y canlyniadau a gyhoeddwyd.

Yn ystod cyfres y gaeaf, cawsom wybod am dân mewn cyfleuster sganio a ddefnyddir gan fwrdd arholi. Roedd y sgriptiau arholiadau yn y cyfleuster sganio eisoes wedi cael eu sganio, felly nid oedd unrhyw effaith ar ddysgwyr.

Camymddwyn

Rydym yn casglu data ar nifer y troseddau camymddwyn a chosbau yng Nghymru ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn flynyddol. (Cyhoeddwyd ein hystadegau swyddogol ar gamymddwyn yng nghyfres yr haf 2018 ar 13 Rhagfyr 2018[8]). Ym mis Tachwedd 2019, byddwn yn adolygu'r mathau o gamymddwyn a gofnodwyd gan fyrddau arholi ac unrhyw gosbau a roddwyd i fyfyrwyr, staff ysgolion neu golegau, ac ysgolion neu golegau mewn perthynas â chyfres y gaeaf.

Lle y gallai achos honedig o gamymddwyn effeithio ar safonau neu hyder y cyhoedd, mae'n rhaid i'r bwrdd arholi roi gwybod i ni amdano yn brydlon, fel digwyddiad, yn

[8] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/malpractice-for-gcse-as-and-a-level-in-wales-summer-2018-exam-series/

ystod y gyfres arholiadau. Ni chawsom wybod am unrhyw achosion o gamymddwyn yn y ffordd hon yn ystod cyfres y gaeaf.

Pennu safonau, dyfarnu a chanlyniadau

Pennu safonau ar gyfer cymwysterau TGAU

Caiff y broses pennu safonau ar gyfer cymwysterau TGAU ei chynnal pan gaiff cymhwyster ei ddyfarnu, a chaiff ei monitro'n agos gennym ni. Cyhoeddwyd dogfennau technegol gennym (a elwir yn ddogfennau cyfnewid data[9]) sy'n manylu ar y ffordd y dylai CBAC ddyfarnu'r cymwysterau a chraffu ar y broses yn agos drwy gydol y cyfnod dyfarnu. Fel y rheoleiddiwr, rydym yn adolygu canlyniadau'r cyfnod dyfarnu. Os bydd canlyniadau yn sylweddol wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd, rydym yn adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y bwrdd arholi er mwyn penderfynu a ellir cyfiawnhau'r dyfarniad.

Wrth adolygu'r dystiolaeth, rydym yn cadw'r tair egwyddor ganlynol mewn cof:

1. tegwch i ddysgwyr;
2. hyder y cyhoedd yn y canlyniadau a gyhoeddir;
3. cynnal safonau.

Dyfarnwyd nifer o gymwysterau nas diwygiwyd hefyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn dilyn cyfleoedd terfynol i ailsefyll. Gwnaethom weithio'n agos gyda'n cyd-reoleiddwyr cymwysterau (Ofqual yn Lloegr a'r CCEA yng Ngogledd Iwerddon) er mwyn craffu ar y dyfarniadau hyn fel rhan o ddull rheoleiddio presennol ar sail tair gwlad.

[9] https://www.qualificationswales.org/english/publications/data-exchange-procedures-wales-winter-2018-19 [Saesneg yn unig]

Monitro

Gwnaethom gynnal rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau monitro yn ystod y cyfnod cyn cyfres y gaeaf ac yn ystod y cyfnod hwnnw. Gwnaethom gwblhau adroddiad er mwyn rhoi adborth i CBAC ar ôl pob gweithgaredd monitro.

Tachwedd 2018

Mae CBAC yn cynnull Pwyllgor Gwerthuso Papurau Cwestiwn (QPEC) ar gyfer pob un o'i fanylebau er mwyn datblygu a chymeradwyo papurau cwestiwn. Yn nodweddiadol, caiff cyfarfodydd QPEC eu cadeirio gan Gadeirydd yr Arholwyr, gyda'r Prif Arholwr ar gyfer pob papur yn gwneud cyfraniad sylweddol. Mae aelodau eraill y pwyllgor yn cynnwys amrywiaeth o uwch arholwyr a swyddog pwnc CBAC. Ar gyfer y gyfres hon, aethom i holl gyfarfodydd QPEC ar gyfer papurau arholiad ar gyfer tair haen y cymwysterau TGAU Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd, a phob papur TGAU Saesneg Iaith a TGAU Cymraeg Iaith. Cafodd pob cyfarfod QPEC yr arsylwyd arnynt gennym ei gynnal yn unol â'n rheoliadau, gyda'r Cadeirydd a'r swyddog pwnc yn sicrhau bod y prosesau priodol wedi cael eu dilyn yn systematig.

Gwnaethom arsylwi ar bron bob un o'r cynadleddau safoni arholwyr (gan gynnwys cyfarfodydd arweinwyr tîm, lle y bo'n berthnasol) ar gyfer y pedwar cymhwyster diwygiedig ac roeddem yn fodlon bod y rhain wedi'u cynnal yn unol â'n rheoliadau a'n gofynion.

Gwnaethom arsylwi ar bob cyfarfod dyfarnu ar gyfer y pedwar cymhwyster. Cytunwyd ar ein rheoliadau a'n gofynion mewn cyfarfodydd cynllunio cyn y gyfres, ac roeddem yn fodlon bod y dyfarniadau y gwnaethom arsylwi arnynt wedi'u cynnal yn unol â'r rheoliadau a'r gofynion hyn.

Ionawr 2019

Roedd ein gweithgareddau monitro yn canolbwyntio ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd dyfarnu ar gyfer y cymwysterau newydd. Aethom i gyfarfodydd dyfarnu Uned 1 ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg. Roeddem yn fodlon bod y cyfarfodydd dyfarnu yr arsylwyd arnynt wedi'u cynnal yn unol â'n rheoliadau a'n gofynion.

Aethom i bob cynhadledd cymedrolwyr ar gyfer y Tystysgrifau Her Sgiliau Sylfaenol, Cenedlaethol ac Uwch. Roeddem yn fodlon bod y rhain wedi'u cynnal yn unol â'n rheoliadau a'n gofynion.

Canlyniadau

Cyfres y gaeaf 2018/19

Cyhoeddwyd canlyniadau ar gyfer arholiadau mis Tachwedd ar 17 Ionawr 2019. Cyhoeddwyd canlyniadau ar gyfer arholiadau mis Ionawr ar 7 Mawrth 2019. Ar y ddau ddiwrnod, cyhoeddwyd trosolwg o'r canlyniadau ar ein gwefan[10].

Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli perfformiad mis Tachwedd mewn cymwysterau TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd; mae newidiadau yn y trefniadau cofrestru yn ei gwneud hi'n anodd llunio cymariaethau ystyrlon rhwng y tair carfan. Er enghraifft, mae canlyniadau mis Tachwedd 2017 a 2018 yn cynnwys ymgeiswyr a oedd yn ailsefyll eu cymhwyster TGAU mewn Mathemateg neu Fathemateg – Rhifedd, ond yng nghanlyniadau mis Tachwedd 2018, roedd pob ymgeisydd yn sefyll yr arholiad am y tro cyntaf.

Canlyniadau mis Tachwedd ar gyfer Cymwysterau TGAU Diwygiedig (canrannau cronnol, ar gyfer pob dysgwr)

Cymhwyster	Blwyddyn	Nifer yn sefyll yr arholiad	A*	A*-A	A*-C	A*-G
TGAU Mathemateg – Rhifedd	**2018**	**11,930**	7.4	17.6	57.5	92.5
	2017	**19,140**	4.2	11.1	48.3	91.3
	2016	**28,755**	5.6	12.3	46.1	88.5
TGAU Mathemateg	**2018**	**6,575**	12.6	22.7	58.3	92.0
	2017	**21,880**	5.3	10.6	45.8	91.5
	2016	**22,685**	5.8	9.9	46.1	91.2
TGAU Saesneg Iaith	**2018**	**3,290**	1.8	6.3	37.4	98.0
	2017	**11,715**	0.4	3.2	47.5	99.1
TGAU Cymraeg Iaith	**2018**	**185**	0.0	3.2	33.5	99.5
	2017	**500**	0.4	7.8	52.0	99.4

Ffynhonnell: CBAC

Roedd y cymwysterau TGAU Saesneg Iaith a Chymraeg Iaith diwygiedig ar gael i'w hailsefyll am y tro cyntaf yng nghyfres mis Tachwedd 2017.

[10] https://qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/results-november-2017/

Casgliad

Ni chafwyd unrhyw faterion pwysig a gafodd effaith sylweddol ar y trefniadau i gyflwyno cyfres y gaeaf yn ddiogel. Ni chododd fawr ddim materion a allai fod wedi cael effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr yng Nghymru. Pan gododd materion, gwnaethom fonitro'r camau a gymerwyd gan CBAC er mwyn sicrhau bod safonau wedi'u cynnal a bod y canlyniadau yn gywir ac wedi'u llunio'n brydlon. Ar ôl monitro'r broses o bennu safonau ar gyfer y cymwysterau TGAU diwygiedig ar gyfer Cymru yn unig, rydym yn fodlon bod y safonau wedi cael eu cario ymlaen yn briodol o'r flwyddyn flaenorol.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar waith CBAC, er mwyn cadarnhau'r paratoadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau TGAU a Safon Uwch Cymru. Byddwn yn parhau â'n rhaglen gynhwysfawr o waith monitro ac yn defnyddio canfyddiadau unrhyw waith gwerthuso ac ymchwil i lywio camau gweithredu yn ôl yr angen. Byddwn yn cynnal ymarfer holiadur unwaith eto yn ystod haf 2019 i fyfyrwyr ac athrawon roi adborth ar y cymwysterau.

Rydym wrthi'n trafod y trefniadau ar gyfer cyfres haf 2019 â CBAC, y byrddau arholi eraill a chyd-reoleiddwyr. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod cyfresi'r haf a'r gaeaf ac ymchwil barhaus i lywio ein trafodaethau.